AM DDIM

Cyfnodolyn Synod Cymru Yr Eglwys Fethodistaidd

Rhifyn 230 Mehefin – Gorffennaf 2021

# Gwyliedydd






# O'R GADAIR AR Y GOROR

gan y Parchedig **Jennifer Hurd**

**Ffarwelio**

Mae yna hen jôc Fethodistaidd sy'n dweud mai'r gweinidog gorau erioed yw'r un sydd ar fin gadael neu'r un sydd ar fin dod! Yr haf hwn, mae Cylchdaith a Synod Cymru yn ffarwelio â thri gweinidog sydd wedi gwasanaethu yn ein plith ers nifer go dda o flynyddoedd. Maent ill tri yn dod o Loegr yn wreiddiol ac wedi dysgu Cymraeg, sef y Diacon Stephen Roe, y Parchedig Marty Presdee a'r Parchedig Ddr Trevor Hoggard. Rydym yn ddiolchgar iawn i bob un ohonynt.

Gwasanaethodd Stephen yng Nghylchdaith Bangor and Holyhead Wales Synod yn gyntaf, cyn gweithio yn Ardaloedd Môn ac Arfon, Glannau Meirion a Dyfi a De Gwynedd (fel Arweinydd Ardal) Cylchdaith Cymru. Yn ogystal, mae Stephen wedi gwasanaethu fel Swyddog Diogelu Cylchdaith a Synod Cymru ac fel Ysgrifennydd Cyfarfod y Gylchdaith, ochr wrth ochr â swyddogaethau efo Urdd y Diaconiaid a'r Cyfundeb Methodistaidd. Gwerthfawrogir Stephen yn fawr am ei ddoniau ieithyddol, gweinyddol a bugeiliol, a bydd yn gaffaeliad i'w gylchdaith newydd, North Wiltshire yn Nhalaith Bryste.

Mae Marty wedi gwasanaethu yng Nghylchdaith Ceredigion Wales Synod ac Ardal Ceredigion Cylchdaith Cymru ers Medi 1af 2017. Bu'n Weinidog Ar Brawf yn hen Gylchdaith Llanrhaeadr, yn ôl yn y 1990au. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf bu'n Arolygydd Cylchdaith Ceredigion, yn ogystal â'i chyfrifoldebau fel Arweinydd Ardal Ceredigion, o dan amgylchiadau anodd pandemig COVID-19 a sefyllfa heriol ei hiechyd personol. Mae hi wedi jyglo'r cyfrifoldebau sy'n dod o gael eich penodi yn y ddwy Synod, gan gynnwys gwasanaethu fel cynrychiolydd Cartrefi Henoed MHA yn Synod Cymru, ac wedi ennill yr hawl i eistedd i lawr (fel y byddwn yn galw ymddeoliad gweinidogion!) yn y Barri ar ôl symud o Lanbedr Pont Steffan ym mis Awst.

Ers 1 Medi 2019, mae Trevor wedi gwasanaethu fel Arolygydd Cylchdaith Cymru ac Arweinydd Ardal Dyffryn Conwy (a Dyffryn Clwyd, i ddechrau). Daeth atom gyda chyfoeth o wybodaeth, profiad a sgiliau a fu'n amhrisiadwy wrth inni weithio gyda Wales Synod tuag at ffurfio un Synod newydd yr Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru o 1 Medi 2022 ymlaen. Ymateb i alwad Duw i weithio ym Mhrydain eto ar ôl gweinidogaethu yn Seland Newydd oedd penodiad Trevor yma; bu'n gweithio yn ystod y rhan fwyaf o'i gyfnod yma o dan amgylchiadau COVID-19 a'r holl gyfyngiadau. Oherwydd fod ei deulu yn ôl yn Seland Newydd, a gwaith iddo yntau ei wneud gyda'r Eglwys Fethodistaidd yno, gofynnodd Trevor am ganiatâd i gwtogi ei benodiad ar ôl dwy flynedd. Mae'n deg dweud ei fod o wedi cyflawni mwy yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf na rhai ohonom ni mewn llawer mwy o amser! Diolch a phob bendith iddo, ac i Marty a Stephen.

**Y Synod newydd**

Mae'r gwaith tuag at greu ein Synod newydd yn parhau, wrth gwrs. Yn dilyn pleidleisiau cryf o blaid Cynnig Amlinellol yng nghyfarfodydd Synod Cymru a Wales Synod yn y gwanwyn, mae cynigion manylach yn cael eu paratoi i'w rhoi gerbron y ddwy Synod ym mis Medi. Wedyn bydd corff cyfundebol, sef y Cyngor Methodistaidd, yn derbyn adroddiad ym mis Hydref. Bydd Cylchdaith Cymru yn parhau fel cylchdaith Gymraeg ei hiaith yn y Synod newydd ond, o reidrwydd, bydd llai o weinidogion ordeiniedig er mwyn ceisio sicrhau sail ariannol ar gyfer y dyfodol. Mae'n golygu newid. Mae newid yn gallu codi ofn, ond mae'n gyffrous ac yn cynnig cyfleoedd newydd hefyd. Mae pandemig COVID-19 wedi golygu newidiadau yn ein byd a'n cymdeithas, a byddant yn parhau am gyfnod eto. Pam y dylai eglwys Iesu Grist gael ei heithrio? Rydym ni yn y byd, hyd yn oed os nad ydym yn perthyn i'r byd (Ioan 17: 14-16). Os yw Duw am i ninnau newid er mwyn i ni wasanaethu ei fyd a'n cymdeithas yn well, mae'n syniad da i ni ymateb!

**Yn nerth yr Ysbryd Glân**

Ar ddiwedd mis Mai, fe wnaethon ni ddathlu'r Pentecost – dyfodiad yr Ysbryd Glân a genedigaeth yr eglwys. Mae'n dymor sy'n parhau tan yr Adfent, yn y bôn (er gwaethaf yr enw "Amser Cyffredin"!), ac mae'n werth cofio am ddigwyddiadau Llyfr yr Actau wrth inni ystyried creu ein Synod Newydd. Llwyddodd yr Ysbryd Glân i dynnu pobl "o bob cenedl dan y nef" (2: 5) at ei gilydd er mwyn moli a gwasanaethu Duw, pobl o bob iaith a hil, gwledydd gwahanol, diwylliannau gwahanol – mor amrywiol ag oedd yn bosib! Doedd y broses ddim yn hawdd, ond oherwydd eu bywyd yn gyffredin yn y ffydd, cryfhaodd yr eglwys ac aeth cenhadaeth Duw ymlaen. Os mai dyna wnaeth yr Ysbryd Glân 2000 o flynyddoedd yn ôl, pam na all yr un peth ddigwydd eto yn ein plith ni heddiw? "Y mae cariad Crist yn ein gorfodi ni" (2 Corinthiaid 5: 14) – ac yn ein cofleidio a'n cynnal, a'n hanfon allan i'w wasanaethu. Na foed i ni ddiffygio.

**Y Cadeirydd yn pregethu yn y gwahanol Ardaloedd**

Bydd Jennie'n ymweld â'r mannau isod yn y ddau fis nesaf, yn unol wrth gwrs â rheoliadau Covid ar yr adeg dan sylw. Boed bendith Duw ar ei gwaith ac ar bawb sy'n pregethu'r Efengyl.

**Mehefin**

- 6 Glannau Meirion a Dyfi
- 13 Ceredigion
- 20 Glannau Maelor
- 27 Sul y Gynhadledd

**Gorffennaf**

- 4 Canmlwyddiant +1 Wesley Hall, Arley (Cylchdaith Coventry & Nuneaton)
- 11 Glannau Meirion a Dyfi
- 18 Dyffryn Conwy
- 25 Môn ac Arfon



# Gwyliedydd

**CYFNODOLYN SYNOD CYMRU
YR EGLWYS FETHODISTAIDD**
Sefydlwyd 1877 – Cyfres Newydd 1987

**RHIF 230
MEHEFIN – GORFFENNAF 2021**

Cyhoeddir 6 rhifyn y flwyddyn – am ddim i aelodau a chyfeillion Synod Cymru. 6 rhifyn drwy'r post £5.

**BARN Y CYFRANWYR UNIGOL A FYNEGIR YN YR EITEMAU UNIGOL**

**GOLYGYDDION**
**ROBIN JONES**
LLYS ALAW,
18 STAD ERYRI
BETHEL,
CAERNARFON
GWYNEDD LL55 1BX
Ffôn 01248 670140
Ffôn symudol 07780 869907
e-bost robinbethel@tiscali.co.uk

**FFION ROWLINSON**
CRUD YR AWEL
LÔN NEWYDD COETMOR
BETHESDA,
GWYNEDD
LL57 3DT
Ffôn 01248 605365
Ffôn symudol 07554 958723
e-bost ffion.rowlinson@trysor.f9.co.uk

**DYDDIAD CAU**
5 GORFFENNAF 2021

Dylid gwneud sieciau yn daladwy i "Yr Eglwys Fethodistaidd – Talaith Cymru"

Dyluniwyd gan Elgan Griffiths
Argraffwyd gan Wasg y Lolfa

Llun y clawr gan Teerawit Janpeng



## Rhoddion a Thanysgrifiadau

Diolchwn yn gynnes am y tanysgrifiadau a'r rhoddion caredig a dderbyniwyd tuag at gostau cyhoeddi a dosbarthu'r Gwyliedydd. Gwerthfawrogwn eich cefnogaeth yn fawr iawn.

- Mrs M. G. Tüzüner, Y Felinheli £50-00
- Eglwys Gydenwadol Llangollen £20-00
- Mrs Olwen Whomsley, Aberhonddu £30-00
- Dienw £5-00

**Cyfanswm
£155-00**

# Dymuniadau gorau

Wedi 27 mlynedd o fod yn Geidwad y Ganolfan Undod ac Adnewyddiad yn Hen Gapel John Hughes ym Mhontrobert, mae Nia Rhosier wedi penderfynu symud i fyw, o Faldwyn i Langollen, lle bydd yn nes at berthnasau fydd wrth law i ofalu amdani gan nad yw wedi mwynhau iechyd rhy dda yn ddiweddar.

Rheswm arall dros symud ydi'r difrod wnaed i dŷ'r Hen Gapel fel canlyniad i lifogydd mawr 'Storm Dennis' ddechrau 2020. Mae gan yr Ymddiriedolaeth waith mawr i godi arian at yr holl atgyweirio, felly ni fydd unrhyw olynydd yn gallu byw yn y tŷ a thrist yw nodi fod yr Hen Gapel hefyd ar gau ar hyn o bryd.

Diolch o galon i Nia am ei gwaith a'i chroeso arbennig i'r Ganolfan dros y blynyddoedd a phob dymuniad da am iechyd a hapusrwydd yn ei chartref newydd.

*RJ*

---

Ychydig cyn i'r *Gwyliedydd* fynd i'r wasg clywsom y newydd trist am farwolaeth y Parchedig J. Bryn Jones. Cydymdeimlwn yn ddwys â'r teulu. Cyhoeddir teyrnged iddo yn ein rhifyn nesaf.

## Gweithredu Dros Blant

Hoffem ddiolch i'r canlynol am eu rhoddion tuag at Gweithredu dros Blant, sydd wedi dod i law ers rhifyn diwethaf y *Gwyliedydd*:
Mrs Sheila Ann Thomas (Grawys) £ 50.00
Er cof am Mrs Mair Rees gan ei mab £ 50.00
Y Chwaer Eluned Williams (Grawys) £ 25.00
Mrs Irene Edge (Grawys) £ 30.00
Anfonwyd cyfanswm o £155.00 yn enw Synod Cymru.

Yn dilyn ailstrwythuro yn yr adran Codi Arian yn y Gymuned, daeth swydd Nikki Booth i ben ond mae hi wedi bod yn llwyddiannus i gael swydd Swyddog Cefnogi Rhanbarthol: Gogledd Cymru, Gogledd Iwerddon a Gogledd Orllewin Lloegr. Bydd yn gweithio o'i chartref yn hytrach na'r swyddfa yn y Rhyl ac felly ni fydd modd danfon dim yn uniongyrchol ati hi. Mae Nikki yn awyddus i gadw cysylltiad â'i chefnogwyr brwd. Ein gobaith yw y byddwn yn gallu cyfarfod wyneb yn wyneb yn y dyfodol agos.

Cofiwch am Sul Gweithredu dros Blant ar 11 Gorffennaf, ar thema 'Tangnefedd oddi mewn, tangnefedd o'n cwmpas'. Mae Trefn Gwasanaeth a syniadau da ar gyfer gwasanaeth ar gael yn Gymraeg trwy fynd i https://bit.ly/FaithFR

Gyda diolch am bob cyfraniad ac am eich cefnogaeth.

**Marc a Margaret**
Parchg. Marc a Mrs Margaret Morgan
Llety'r Bugail, 1 Cwrt Eden, Gwersyllt, Wrecsam, LL11 4FF (01978 756717
cwrteden@gmail.com)

# Cnoi Cil

gan Gwyndaf Roberts



Mae haneswyr yn gytûn eu barn mai Robert Raikes (1735-1811) oedd yr un a ddechreuodd fudiad yr Ysgolion Sul yn Lloegr. Teg nodi bod rhai ysgolion wedi eu cynnal yn gynharach fel yr un gan Hannah Bell, High Wycombe yn 1769. Un o ddilynwyr John Wesley oedd Hannah a fu'n gohebu gydag ef gydol ei hoes. Wrth i ymdrechion Raikes lwyddo fe roddwyd sylw i'r Ysgolion Sul yn yr Armenian Magazine a bu hyn yn hwb i Wesleaid Lloegr sefydlu ysgolion yn eu plith. Yn 1787 roedd Wesley yn canmol Ysgol Sul Bolton lle'r oedd 800 o blant ac wyth athro.

Anglicanwr cefnog iawn oedd Raikes a etifeddodd gwmni argraffu ei dad yng Nghaerloyw yn 1757. Wrth weld plant ifanc yn ymddwyn yn afreolus ar strydoedd Caerloyw, yn arbennig felly ar y Sul, gwelodd ei gyfle ac agorodd Ysgol Sul yn 1780. Cyflogodd athrawon ac wedi dechrau araf roedd dwy Ysgol yno ymhen dwy flynedd. Roedd yr Ysgol yn cyfarfod ddwywaith, yn y bore rhwng 10 a 12 gyda'r plant yn mynd adre am ginio ac yn dod yn ôl i'r cyfarfod pnawn rhwng 2 a 5. Dysgu darllen oedd y dasg gyntaf a'r Beibl oedd y gwerslyfr.

Ar y dechrau roedd cryn wrthwynebiad i'r fenter ar y sail bod yr athrawon yn gweithio am gyflog ac felly'n torri'r Sul. Ofnai eraill y byddai'r plant yn mynd yn ysglyfaeth i bropaganda gwleidyddol. Ildiodd rhai Ysgolion i'r cwynion gan roi'r gorau i ddysgu ysgrifennu ar y Sul. Defnyddiodd Raikes ei bapur newydd, y Gloucester Journal, i ddwyn mwy o sylw at ei waith. Ffynnodd yr ymdrechion ac erbyn 1831 roedd miliwn a chwarter o blant yn Ysgolion Sul Lloegr. Yn 1910 roedd pum miliwn a hanner o blant yn Ysgolion Sul gwledydd Prydain. Sefydlwyd Cymdeithas yr Ysgol Sul yn Llundain yn 1785. Y flwyddyn honno a gydnabyddir bellach fel blwyddyn geni Mudiad yr Ysgolion Sul.

Arweinydd yr ail genhedlaeth o Fethodistiaid Cymru oedd Thomas Charles (1755-1815). Ganwyd ef yn Llanfihangel Abercywyn a bu'n ffodus o gael ei addysg tan 1769 yn yr ysgol a sefydlwyd gan Griffith Jones yn Llanddowror. Mynychodd Academi Caerfyrddin cyn mynd yn 1775 i Goleg Iesu Rhydychen. Graddiodd yno ac yn 1780 urddwyd ef yn offeiriad. Gwasanaethodd am dair blynedd yn Lloegr ond roedd cwrs ei fywyd wedi'i benderfynu pan syrthiodd mewn cariad â Sally Jones, siopwraig gyfoethog o'r Bala. Priodwyd y ddau yn 1783, ond gan nad oedd derbyniad iddo fel offeiriad yn Eglwysi'r ardal, ymunodd â seiat y Methodistiaid yn y Bala yn 1784.

Daeth yn amlwg i Charles mai gwaith anodd ac aneffeithiol oedd pregethu i wrandawyr anwybodus. Gwelodd mai'r ffordd ymlaen oedd sefydlu Ysgolion Dyddiol ac aeth ati yn 1785 i hyfforddi un athro yn y Bala. Erbyn 1794 roedd 20 o athrawon yn derbyn tâl ganddo ac yn cadw ysgolion lleol am chwech neu naw mis i ddysgu darllen yn bennaf. Bu John Hughes Pontrobert yn un o'r athrawon a threuliodd John Davies gyfnod yn Llanwyddelan cyn hwylio am Tahiti ar Fai 5, 1800. I sicrhau parhad mewn addysg wedi i ysgol leol ddod i ben, roedd Charles erbyn tua 1786 wedi penderfynu y dylid sefydlu Ysgolion Sul i olynu ei Ysgolion dros dro ef. Fe wyddai am Gymdeithas yr Ysgolion Sul ac am waith Robert Raikes, ond llwyddodd i roi gwedd Gymreig ar y mudiad. Ymhen tair blynedd roedd 177 o Ysgolion Sul mewn bodolaeth yng Nghymru, ac 8000 o blant yn cael addysg ynddynt.

Un o athrawon mwyaf ymroddedig y Mudiad oedd Owen Jones (1787-1828), Gelli, Llanfair Caereinion. Ganwyd ef yn Nhywyn Meirionydd ac wrth weithio yn Aberystwyth, sylfaenodd ef a'i gefnder Robert Davies ysgol Sul Trefechan. Sefydlodd Ysgol Sul yn Llanidloes ac yn 1807, un yng nghapel Hill Lane, Amwythig. Yn 1808 gofynnwyd iddo arolygu holl Ysgolion Sul Maldwyn. Cyhoeddodd gatecism, *Arweinydd i Wybodaeth* yn 1820. Dywedir amdano ei fod yn ail i Thomas Charles yn ei waith i ledaenu'r Ysgolion Sul yng ngogledd Cymru.

Yn ôl yr hanesydd A H Williams, roedd ysgolion Sul wedi'u sefydlu yng Nghymru cyn 1804 gan y Wesleaid. Yn 1804 roedd 200 yn Ysgol Sul Rhuthun ac Ysgolion yn Ninbych, Caernarfon a Hirwaun. Erbyn 1822 roedd gan yr enwad 140 o ysgolion, 1460 o athrawon a 11,638 o ddisgyblion. Yn 1858 cofnodir 275 ysgol a 19,198 o ddisgyblion. Cyhoeddwyd *Trysor i Blentyn* o 1825 i 1840 a'r *Winllan* o 1848 i 1965. Fel y nodir gan y Parchedig Eric Edwards, i'r *Winllan* yr ysgrifennodd Kate Roberts *Deian a Loli* a *Laura Jones*. Gwelodd nifer o gymeriadau Tegla Davies olau dydd ynddo hefyd megis *Nedw* a *Tomi*.

Dichon y bydd y rhai ohonom gafodd y cyfle i fynd i'r Ysgol Sul yn barod i gydnabod y breintiau a gawsom ynddi. Mae ein dyled yn fawr i'r athrawon a aberthodd eu hamser i'n dysgu am Iesu Grist a'r Beibl. Ein dyletswydd heddiw yw cefnogi pawb sy'n dal ati i ddweud yr hen, hen hanes wrth blant ein hysgolion Sul.

# Tynged y Gymanfa Ganu

## gan y Parchedig Philip Barnett

Mae'r Gymanfa Ganu, mewn rhyw ffurf neu'i gilydd, yn weithgaredd ymhlith y Cymry ers canrifoedd. Cred rhai fod ffurf hynafol ar y Gymanfa yn mynd yn ôl i'r dyddiau mynachaidd yn y canol oesoedd, hyd yn oed. Cymanfa Bwnc fyddai honno, i'w chlywed mewn pentrefi anghysbell ac yn rhan o draddodiad llafarganu.

Tua diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, pan oedd Anghydffurfiaeth yn ei hanterth a ffyniant diwydiannol yn ein gwlad, daeth bri ar yr ŵyl gerddorol. Mewn capeli gorlawn ledled y wlad cynhelid gwyliau gyda chorau mawrion yn canu mewn pedwar llais. Byddai pobl yn edrych ymlaen at yr ŵyl flynyddol a chafwyd hwb i'r ffenomenon hefyd yn sgil Diwygiad 1904/5.

Erbyn heddiw mae'r Gymanfa Ganu wedi dirywio. Mae patrwm bywydau pobl wedi newid ac nid yw mynychu capel neu eglwys yn arferiad mwyach. Ond, er bod nifer y bobl sy'n troi i fyny i ganu mewn Cymanfaoedd wedi lleihau, mae capeli ledled Cymru a thu hwnt yn dal i atseinio â phobl yn canu emynau yn frwdfrydig.



Y cwestiwn mawr rŵan yw – beth fydd dyfodol y Gymanfa Ganu yn wyneb effaith y pandemig? Yn y Gymanfa mae pobl yn sefyll ysgwydd wrth ysgwydd i ganu ac mae hyn yn mynd yn hollol groes, ar hyn o bryd beth bynnag, i gyfarwyddiadau er mwyn rheoli'r feirws.

Mae'n rhy hawdd edrych yn ôl a dyheu am yr amser a fu! Cofiaf tua 1964 pan ddaeth Dr Terry James i'r Bala i Gymanfa'r Annibynwyr – y capel dan ei sang a nifer ohonom yn ein harddegau yn eistedd ar siliau ffenestri'r oriel! Ofer ceisio ail-greu'r profiadau hynny ond, ryw ffordd neu'i gilydd, fe ddaw cynlluniau i'n galluogi ni i ganu unwaith yn rhagor. Ni fedrwch ddileu canrifoedd o'r Cymry yn codi eu lleisiau yn eu ffordd unigryw eu hunain.

Rwyf ar hyn o bryd yn cadeirio'r Pwyllgor Mawl Cydenwadol. Ar ôl methu â chynhyrchu'r Detholiad ar gyfer Cymanfaoedd Canu'r Capeli eleni, fe fyddwn yn paratoi, mewn gobaith, ar gyfer 2021/22. Rydym yn dal i werthu o gwmpas 8,000 ohonynt y flwyddyn felly, pan ddaw'r amser, prynwch eich copi a dechrau canu!

# GAIR BACH

*gan y Parchedig John Pritchard, Llanberis*



## RHOI RHESWM

'Boi gwych' ('*fantastic guy*') oedd disgrifiad un dyn a ffoniodd raglen radio i ganmol gwleidydd nid anenwog. 'Pam da chi'n deud hynny?' meddai cyflwynydd y rhaglen: cwestiwn teg a chyfle euraidd i'r dyn ganmol y gwleidydd. Fe'i gofynnwyd deirgwaith, ond ni chaed ateb. Roedd y dyn yn hollol fud. Ond o'i ofyn y pedwerydd tro meddai, '*because of the things he comes out with*'. Nid polisïau'r gwleidydd na'i gymeriad nac unrhyw un o'i gyflawniadau ond y 'pethau mae'n eu deud'. Fedraf fi ond dyfalu mai dyna ystyr *'the things he comes out with'* gan nad ymhelaethodd y dyn ar ei eiriau er i'r cyflwynydd fwy nag unwaith ei wahodd i wneud hynny.

Nid yw pawb yn arbenigwyr ar wleidyddiaeth nac unrhyw bwnc arall a drafodir ar raglenni radio, ond os yw dyn yn mynnu ffonio i glodfori gwleidydd neu dîm pêl droed neu hyd yn oed ei hoff bot jam, mae'n rhesymol disgwyl iddo fedru dweud pam ei fod yn canmol.

Yn y cyntaf o'r ddau lythyr sydd ganddo yn y Testament Newydd dywed Simon Pedr, un o apostolion Iesu Grist, 'Byddwch yn barod bob amser i roi ateb i bob un fydd yn ceisio gennych gyfrif am y gobaith sydd ynoch' (1 Pedr 3:15). Un o'r pethau sy'n nodweddu Cristnogion pob oes, yn wyneb pob math o brofedigaethau ond hefyd yn eu bywyd beunyddiol, yw eu gobaith; ac mae Pedr yn eu hannog i roi rheswm drosto. Nid oes disgwyl i bob Cristion bregethu nac athrawiaethu'n ddwfn am bethau'r Ffydd. Ond yng nghanol anobaith byd anghrediniol, yn arbennig yn wyneb angau, gall pob Cristion roi ateb i bwy bynnag fydd yn holi am y gobaith sydd ganddynt. Gall yr ateb hwnnw fod mor syml â 'Mae Duw yn fy ngharu' neu 'Bu Iesu Grist farw trosof' neu 'Atgyfododd Crist'.

# Capel Ni
## yn Eglwys Iesu

### Shiloh, Tregarth

**ADDOLI YN SHILOH UNWAITH ETO**
Braf oedd medru agor drysau Shiloh unwaith eto ar Sul y Pasg, ar ôl cau oherwydd y pandemig yn ystod tri mis cyntaf y flwyddyn. Diolch yn fawr i'r rhai a arweiniodd y gwasanaethau yn ystod Ebrill a Mai sef y Parchedigion Richard Gillion, Olaf Davies, Jennie Hurd, Eric Jones a Richard O. Jones, a Mr Glyn Owen, Llanwnda. Dymuniadau gorau am wellhad buan i'r Parchedig Gwynfor Williams.

**LLONGYFARCH**
Llongyfarchiadau enfawr i Jennie Hurd am gasglu cymaint o arian tuag at ymdrech Gofal Canser Macmillan, drwy gymryd rhan ym menter 'Brave the Shave' ynghyd â'i ffrind Leah. Deallwn fod y ddwy, a gafodd eu noddi i eillio eu pennau, wedi casglu yn agos i bedair mil o bunnau at y gwaith da yma. Cawsom gyfle yn Shiloh i anfon arian a gasglwyd wrth gyfarfod am baned a sgwrs ar fore Gwener (pan oedd hynny yn bosibl) ac fe wnaeth nifer o aelodau'r capel anfon cyfraniadau yn ogystal. Ymdrech arbennig iawn, Jennie! Roeddem yn falch iawn o gael eich croesawu i Shiloh ym mis Ebrill. Mae'n braf eich gweld bob amser.

**TASWN I'N BRIF WEINIDOG**
Ychydig cyn yr etholiad ym mis Mai, darlledwyd rhaglen ar S4C o'r enw 'Taswn i'n Brif Weinidog', yn rhoi cyfle i bobl ifanc o wahanol rannau o Gymru fynegi eu barn. Ymhlith y rhai a gymerodd ran roedd dwy o ferched ifanc Shiloh sef yr efeilliaid Nel Mai a Myfi Celyn. Llongyfarchiadau mawr, genod, ar godi pwyntiau pwysig a chymryd eich dyletswydd o ddifrif a chithau'n cael pleidlais am y tro cyntaf yn yr etholiad hwn.
**GOHEBYDD .** GWENDA DAVIES

### Ebeneser, Eglwysbach

**LLONGYFARCHIADAU**
Llongyfarchiadau i Eurgain ac Edward, Bwthyn Ebeneser, ar enedigaeth eu mab, Robin Brynmor, brawd bach i Harri Idris. Hefyd i Ieuan ac Elen, Bryn Hafod, a Hugh a Siân, Tal y Llyn, ar ddod yn daid a nain am yr eilwaith.
**GOHEBYDD .** CHARLES CRAPPER

### Tabernacl, Llanfyllin

**GWASANAETH Y PASG**
Ar fore Sul y Pasg daethom ynghyd i ddathlu mewn oedfa yn y Tabernacl. Cymerwyd rhan gan Roy Griffiths, Richard Lloyd, Tom Ellis ac Alwenna Evans. Roeddem i gyd yn falch o glywed emynau'r Pasg yn cael eu chwarae ar yr organ gan Llywela Roberts.

**PEN-BLWYDD ARBENNIG**
Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Mrs Mary Lewis, Hafod Lon, sydd wedi dathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar. Mary yw is-lywydd ein cymdeithas Drws Agored.

**GWEITHREDU DROS BLANT**
Fe drefnwyd taith drwy Goed Caeau Gwynedd gan Keith a Decia Blacker ar ddydd Llun Gŵyl y Banc. Yn anffodus roedd yn ddiwrnod gwlyb ac oer ond er hynny llwyddwyd i godi dros £200 tuag at yr elusen Gweithredu dros Blant. Diolch iddynt am drefnu ac am bob cefnogaeth.

**GWELLHAD BUAN**
Dymunwn wellhad buan i Mrs Marian Roberts, Maes y Dderwen, wedi iddi dreulio peth amser yn yr ysbyty yn ddiweddar. Anfonwn ein cofion ati o'r Tabernacl.

**LLONGYFARCHIADAU**
Llongyfarchiadau i Mr Robin Hughes, sydd wedi bod yn brysur yn ysgrifennu barddoniaeth ar gyfer llyfr ei gymydog, Mr Bob Guy. Enw'r llyfr yw 'Cofleidio'r Bryniau' ac mae'n dathlu 40 mlynedd ers i'r artist Bob Guy symud i'r ardal. Mae'n cynnwys printiadau leino o'r ardaloedd lle bu Bob yn cartrefu, gan gynnwys Penybontfawr, Llansanffraid a gwahanol rannau o Lanfyllin. Llongyfarchiadau i chi eich dau.
**GOHEBYDD .** ALWENA FRANCIS

### Salem, Rhyd y Foel



**SULIAU ARBENNIG**
Yn ystod misoedd Mawrth ac Ebrill cawsom oedfaon bendithiol iawn. O dan ofal y Parchedig Ddr Jennie Hurd cynhaliwyd gwasanaeth ar gyfer Dydd Gweddi'r Byd, a luniwyd gan ferched o Vanuatu ar y thema "Adeiladwch ar sylfaen gadarn". Ar Sul y Fam braf iawn oedd cael croesawu'r Parchedig Nesta Davies atom. Cafwyd gwasanaeth Sul y Blodau o dan arweiniad medrus un o'n haelodau sef Catherine Blythin. Yna ar Sul y Pasg daeth y Parchedig Marc Morgan o ardal Glannau Maelor atom gyda'r neges am yr atgyfodiad a'r bedd gwag. Diolch i Esther Roberts am addurno'r capel â blodau a changhennau palmwydd yn ogystal â bod yng ngofal y taflunydd a'r peiriant sain. Dyma lun o Mari a Cadi ar Sul y Blodau.

**DIOLCH**
Gwerthfawrogwn yn fawr waith ein gweinidog y Parchedig Ddr Trevor Hoggard yn ein plith. Deallwn y bydd yn dychwelyd i Seland Newydd yn ystod misoedd yr Haf i ymuno â'i briod Cathie a dymunwn y gorau i Trevor a'i deulu i'r dyfodol gan ddiolch iddo am ei wasanaeth i'r ardal mewn cyfnod anodd iawn.

**PENBLWYDDI ARBENNIG**
Dymuniadau gorau i Mrs Eryl Roberts, Tan yr Ogof, a Mrs Iola Roberts, Plas Onn, ar ddathlu penblwyddi arbennig yn ddiweddar.

**RHAGLEN RADIO**
Braf iawn oedd clywed Dewi Llwyd yn sgwrsio â Catherine Blythin a'i brawd Arfon Haines Davies, ar y rhaglen "Dros Ginio" ddydd Llun 26ain Ebrill.

**CYDYMDEIMLO**
Anfonwn ein cydymdeimlad at Christine, Sarah, Bethan a Teleri yn eu profedigaeth o golli priod a thad annwyl iawn sef Mr David Allen Pugh, Llys Egryn, Abergele.
**GOHEBYDD .** SIÂN PRICE



## *Ebeneser, Treuddyn*

**AILAGOR**
Wedi misoedd lawer o gael ein cyfyngu gan y pandemig, mae llygedyn o obaith ar y gorwel erbyn hyn. Hyderwn y bydd pethau'n gwella dros y misoedd nesaf yma, yn enwedig gan fod y rhan fwyaf o'r aelodau wedi cael y ddau frechlyn erbyn hyn. Bu i'r Parchedig Eirlys Gruffydd Evans a'r Parchedig Marc Morgan anfon gwasanaethau atom trwy e-bost bob wythnos ers dros flwyddyn bellach ac rydym yn ddiolchgar iawn iddynt am eu llafur. Ar hyn o bryd mae swyddogion y capel yn brysur yn gwneud trefniadau i ailagor y capel ar ddydd Sul, Mehefin 6ed am 6 o'r gloch pan fydd ein gweinidog, y Parchedig Eirlys Gruffydd Evans yn arwain y gwasanaeth. Edrychwn ymlaen yn fawr at gael cyfle i gyd-addoli unwaith eto.

**DYMUNIADAU GORAU**
Yn anffodus nid yw holl aelodau'r capel wedi mwynhau'r iechyd gorau yn ystod y misoedd diwethaf yma. Rydym yn falch iawn o glywed bod Mrs Carys Huxley yn ôl gartref yn dilyn cyfnod yn Ysbyty Maelor, Wrecsam, ac anfonwn ein dymuniadau gorau iddi. Da yw clywed bod Mrs Eiddwen Jones yn ôl gartref yn dilyn triniaeth bellach yn Ysbyty Glan Clwyd. Dymunwn wellhad buan iddi, a hoffem ei llongyfarch yn galonnog ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn 70 oed yn ystod mis Ebrill. Yn yr un modd, anfonwn ein cofion gorau at Mrs Bronwen Gough, cyn aelod yng Nghapel Salem, Eryrys, sydd ar hyn o bryd yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd. Cofiwn yn arbennig am Mrs Eunice Griffiths, sydd bellach wedi treulio wythnosau lawer yn Ysbyty Maelor. Anfonwn ein cofion cynhesaf ati hi a'r holl deulu yn ystod yr amser anodd yma. Cofiwn hefyd am ei mab, Kenneth, a gafodd lawdriniaeth frys yn ddiweddar yn Ysbyty Glan Clwyd. Dymunwn wellhad llwyr iddo.

**YMDDEOLIAD HAPUS**
Hoffem anfon ein dymuniadau gorau i ddwy o'n haelodau sydd wedi ymddeol yn ddiweddar, sef Mrs Gweryl Hughes a Mrs Dilys Williams. Gobeithiwn yn fawr y byddwch yn mwynhau cael gweld mwy ar eich teuluoedd a dilyn gweithgareddau amrywiol.
**GOHEBYDD .** GLENYS DAVIES

## *Ardal Bathafarn*

**DYMUNIADAU GORAU**
Anfonwn ein cofion anwylaf at Lorna Wynne, sydd wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty. Dymuniadau gorau hefyd i Gretta Davies sydd yn symud o Dolwen, Dinbych i gartref gofal yn Wrecsam. Cofion cynhesaf atoch ac at bawb yn yr Ardal. Gobeithio y cawn gyfle i gwrdd yn fuan ac y bydd modd agor y capeli hefyd yn ystod yr haf.

**CYDYMDEIMLO**
Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant at Brenda, Rhodri a Rhian a'r teulu i gyd, o golli un annwyl iawn sef Rhys Roberts. Anfonwn ein cydymdeimlad hefyd at deulu'r diweddar Barchedig Bryn a Mrs Vera Jones. Cofiwn am ffyddlondeb Bryn yn gwasanaethu yng nghapeli Ardal Bathafarn dros y blynyddoedd. Yr un yw ein cydymdeimlad â theulu'r diweddar Barchedig Peter Jennings, y cawsom hefyd y fraint o'i groesawu i Fathafarn. Meddyliwn yn ogystal am Gwyneth, a gollodd ddau gefnder sef Thomas Jones o ardal Cyffylliog ac Ieuan Davies, Melin y Wig gynt; ac am Audrey a gollodd gyfnither sef Glenys Dean – mam Glenys, y ddiweddar Edna, yn rhan o deulu Wesleaid selog bro Rhuthun. Cofiwn amdanoch oll yn eich hiraeth am anwyliaid.

**NEWID AELWYD**
Pob hapusrwydd i Elgan a Helen Hughes a'r teulu, sydd wedi symud i Wern Uchaf, Rhuthun. Bendith fo arnoch yn eich cartref newydd.

**DATHLU**
Llongyfarchiadau a phob hapusrwydd ar gyfer y dyfodol i Siân James, Gwyddelwern, sydd wedi dathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar.

**CYTÛN**
Cymerodd Elizabeth a Siôn ran mewn gwasanaeth Pasg rhithiol ar Facebook. Yn sicr bu'r cyfryngau cymdeithasol o fudd mawr yn ystod y pandemig tra bu'r addoldai ar gau ac mae iddynt lawer o botensial, gan gyd-gerdded â dulliau traddodiadol o addoli.

**Y CERRIG SYLFAEN**
Wrth fynd heibio capel Bathafarn yn ddiweddar, sylwodd ymwelydd o Abergele ar enw 'Miss Littler, Abergele' ar un o'r cerrig sylfaen. Trwy gyfrwng Facebook, holodd a wyddai rhywun pwy oedd Miss Littler a daeth ei gwestiwn i sylw Edwina, un o'n haelodau. Hyd yma, fodd bynnag, ni chawsom wybodaeth bellach amdani. Gosodwyd y pedair carreg sylfaen gan Miss Pritchard, Norwood Grove, Lerpwl; Miss Jones, Ffordd Brunswick, Lerpwl; Miss Littler, Abergele; a Mr S. Jones, Ffordd




Brunswick, Lerpwl. Mae'n debyg bod pob un o'r tair merch wedi cyfrannu pum punt ar hugain, swm sylweddol iawn bryd hynny, gyda Mr S. Jones yntau, yn cyfrannu o'r un pwrs â Miss Jones, yn rhoi decpunt.

Yn yr *Eurgrawn* yn Chwefror 1869 (https://journals.library.wales/view/2272262/2299580/35#?xywh=-551%2C1209%2C3752%2C2296) ceir adroddiad am y "cyfarfod poblog a difyrrus iawn" pan osodwyd y "meini coffadwriaethol" hyn. Yn ogystal â'r rhoddion uchod, cafwyd cyfraniadau pellach - a buasai'r casgliad yn fwy fyth, meddai'r gohebydd, "oni bai cawod o wlaw a ddisgynodd *just* ar y pryd". Ar ôl disgrifio'r te a'r cyfarfod cyhoeddus a ddilynodd y seremoni, ychwanega yr hoffasai roi braslun o'r anerchiadau, heblaw ei fod eisoes yn rhy faith a bod "Mr. Gol., fel y gwyddoch, yn wastad yn gwaeddi, *Byrdra"*!

Mae'n amlwg i'r merched hyn, y coffeir eu henwau, chwarae rhan bwysig yn ein hanes – ond wrth gwrs pan godwyd y capel hwn yn 1868, roedd ymhell cyn dyddiau'r suffragettes a hawliau merched. Er i Edwina a finnau dyfu i fyny yn ardal Rhuthun, a'r hanes yn hysbys inni am fab Bathafarn yn dychwelyd i Ruthun tua 1799, gyda'r achos yn dechrau yn hen lofft y Prince, yna codi'r capel cyntaf yn 1802, ni wnaethom feddwl holi ein teuluoedd am yr hanes gweledol ar y cerrig sylfaen. Diolch i'r ymwelydd hwn am sbarduno ein chwilfrydedd!
**GOHEBYDD .** ELIZABETH JONES

## *Sant Paul, Aberystwyth*

**DYMUNIADAU GORAU**
Mae Lionel Madden wedi rhoi'r gorau i'w swydd fel ysgrifennydd Ardal Ceredigion oherwydd afiechyd. Diolch yn fawr iawn iddo am ei waith dros y blynyddoedd a phob bendith iddo yn y dyfodol.
**GOHEBYDD .** BET HOLMES

*[Hoffai'r Gwyliedydd ddymuno'n dda hefyd i Bet Holmes – da iawn yw deall dy fod yn gwella, Bet]*

# Caethwasiaeth Fodern

## *gan y Parchedig Pam Cram*

Daeth caethwasiaeth i ben yn sgil gwaith William Wilberforce. Dyna mae pawb yn ei ddysgu yn yr ysgol, ond gwaetha'r modd mae ymhell o fod yn wir.

**Cynhadledd Merched Methodistaidd**

Bob mis Ebrill fel rheol, mae Merched Methodistaidd yng ngwledydd Prydain (MWiB) yn cynnal cynhadledd yn Swydd Derby. Fel llawer iawn o bethau eraill, digwyddodd ar-lein eleni. Cefais gyfle i ymuno gyda tua 180 o bobl eraill er mwyn clywed y prif siaradwr sef y Chwaer Imelda Poole. Lleian yw Imelda sy'n hanu o Loegr ond sy'n gweithio yn Albania gyda phobl (merched yn bennaf) a ddioddefodd gaethwasiaeth fodern. Mae llawer o'r bobl hyn hefyd wedi cael eu defnyddio fel puteiniaid.

Mae Merched Methodistaidd yn pryderu am fater masnachu mewn pobl ers rhai blynyddoedd bellach ac mae'n fater a gafodd sylw arbennig hefyd gan Cytûn yng Nghymru. Daeth llawer o achosion o gaethwasiaeth fodern i'r amlwg yng Nghaerdydd.

**Sut mae helpu?**

Dan arweiniad medrus Imelda, cynhaliwyd tri sesiwn addysgiadol iawn. Ar ddiwedd pob sesiwn cafwyd cwestiynau er mwyn i ni ystyried beth oedd ein hymateb ni – beth roeddem yn ei feddwl a sut roeddem yn teimlo. I ddechrau, yn y sesiwn cyntaf, soniodd Imelda am ei chefndir ei hun. Cafodd ei magu mewn teulu mawr o Gatholigion ac roedd cefnogi elusennau yn cael lle amlwg ym mywyd y teulu. Derbyniodd ei haddysg mewn ysgol gwfaint dan ofal Chwiorydd Mary Ward, sef yr Urdd yr ymunodd hithau â nhw yn ddiweddarach. Yn 17 oed fe ddaeth yn ymgyrchydd dros faterion cyfiawnder cymdeithasol.

Yn yr ail sesiwn, soniodd



Imelda Poole

yn bennaf am ei gwaith yn Albania. Tuag ugain mlynedd yn ôl heriwyd pob grŵp o'r Chwiorydd i ffurfio cysylltiad â rhyw brosiect oedd yn gweithio dros gyfiawnder cymdeithasol mewn gwlad dramor. Ar ôl blynyddoedd o ymchwil ofalus a hyfforddiant, symudodd Imelda i Albania, sef un o'r prif wledydd y mae pobl yn cael eu masnachu ohonynt, i'r Eidal a'r Almaen yn bennaf ond weithiau i'r Deyrnas Unedig. Mae'r prosiect yn Albania yn rhan o rwydwaith Ewropeaidd o grwpiau crefyddol o dan yr enw RENATE sy'n gweithio yn erbyn y fasnach hon mewn 31 gwlad.

**Bywyd newydd**


Pam mae'r fath beth yn digwydd? Beth ddylid ei wneud yn ei gylch? Dyna y buom yn edrych arno yn nhrydydd sesiwn Imelda. Daw llawer o'r bobl sy'n cael eu masnachu o deuluoedd sydd yn methu ymdopi ac o gefndir tlawd iawn. Yn aml iawn cânt addewid o gyflog, fydd yn golygu y gallant gynnal y teulu gartref. Os cânt eu hel yn ôl wedyn i'r wlad y daethant ohoni, byddant yn teimlo cywilydd mawr oherwydd nad oes ganddynt yr un geiniog i'w chynnig. Mae'n rhaid iddynt wynebu gofidiau gwreiddiol y teulu yn ogystal â chywilydd a thrawma'r hyn a ddigwyddodd iddynt yn ystod eu caethiwed. Prin iawn yw'r cymorth sydd ar gael i'r bobl hyn ond mae RENATE yn benderfynol o'u helpu. Nid ar chwarae bach y mae rhywun yn gwella o brofiad o'r fath. Soniodd Imelda am un wraig ifanc oedd wedi cael ei thwyllo yn 16 oed i briodi dyn oedd yn ymddangos yn gariadus i ddechrau ond oedd mewn gwirionedd yn buteinfeistr. Wedi iddi ddianc o'i grafangau, daliodd i'w chynnal ei hun am beth amser drwy buteindra. Cymerodd bedair blynedd ar ddeg iddi ddod ati ei hun yn llwyr ond erbyn hyn mae'n astudio'r gyfraith er mwyn helpu dioddefwyr eraill.

**Gobaith**

Gwaetha'r modd, mae'n bosib bod pethau'n waeth fyth, ac yn fwy cudd, oherwydd y pandemig. Mae'r broblem yn llawer, llawer mwy nag y byddai'r nifer y ceir hyd iddynt yn ei awgrymu. Er hynny, mae mwy o ymwybyddiaeth nag a fu ac mae mwy o hyfforddiant yn cael ei gynnig i heddluoedd, gwasanaethau iechyd, ysgolion ac ati er mwyn i bobl adnabod arwyddion posibl caethwasiaeth a gwybod beth i'w wneud i helpu. Y gobaith yw y bydd cyfraith y DU yn newid cyn bo hir i alluogi dioddefwyr i gael mwy o amser i geisio ymdopi â'r hyn a ddigwyddodd iddynt a gwneud penderfyniadau drostynt eu hunain CYN cael eu hanfon yn ôl i'w gwlad wreiddiol. Yn 2019 roedd yn hysbys bod dros 5,000 o ddioddefwyr masnachu a/neu gaethwasiaeth fewnol yn y DU. Er mai yn y dinasoedd yn bennaf y deuir o hyd i'r dioddefwyr hyn, gallent fod yn unrhyw le. Y llynedd cafodd Byddin yr Iachawdwriaeth gontract gan Lywodraeth y DU i ddarparu mannau diogel, cyngor cyfreithiol, cwnsela a chefnogaeth i bobl sydd wedi dioddef caethwasiaeth yn ein dyddiau ni.

Mae gan Ferched Methodistaidd sianel YouTube lle gallwch glywed sgyrsiau'r Chwaer Imelda Poole drosoch eich hun. https://www.youtube.com/watch?v=FDaTnBk7LXk

## cartŵn




# O'R LLAN

*gan y Canon Idris Thomas*

Mae hyn o lith gennyf y tro hwn yn rhyngwladol ei naws.

**RWSIA I FABWYSIADU DUW!**
Y llynedd fe gefnogodd arweinwyr Eglwysi Uniongred Rwsia welliant arwyddocaol yng nghyfansoddiad diwygiedig eu gwlad, gwelliant a gafodd gefnogaeth yr Arlywydd Putin hefyd. Cyfeirio at Dduw y mae'r cymal dan sylw ac fe nodir y dylid gwarchod coffadwriaeth yr hynafiaid a roddodd i bobl Rwsia ddelfrydau, cred yn Nuw a pharhad yn natblygiad y wladwriaeth Rwsiaidd. Aeth swyddogion y wladwriaeth haearnaidd allan o'u ffordd i bwysleisio pwysigrwydd symbolaidd hyn oll a hynny ganrif ar ôl gorthrwm milain y drefn gomiwnyddol. Yn naturiol, cefnogi'r cynnig i gynnwys Duw yn y cyfansoddiad wnaeth Cyngor Aml Ffydd y wlad a dyna hefyd oedd safbwynt Comisiynydd Hawliau Dynol Rwsia, a ddisgrifiodd y symudiad fel ymyrraeth ddwyfol. Yn y cyfansoddiad diwygiedig hefyd mae darpariaeth newydd a chadarn i ddiogelu ac amddiffyn yr iaith Rwsieg ynghyd â hanes a diwylliant y wlad. Ond mae amryw yn credu mai'r hyn sydd y tu ôl i gynnwys y cyfeiriad at Dduw yn y cyfansoddiad yw ymgais i sicrhau cefnogaeth Eglwysi'r wlad er mwyn ymestyn arlywyddiaeth ddadleuol y gormeswr Putin am flynyddoedd eto.



**PAID Â MYND NÔL!**
Fel miloedd eraill, gwaeddais innau y pennawd uchod pan glywais fod yr ymgyrchydd hawliau Alexei Navalny wedi gadael yr Almaen i ddychwelyd i Rwsia. Roedd wedi treulio cyfnod yn yr Almaen yn gwella yn dilyn ei wenwyno â Novichok. Ei arestio, ei garcharu a gwaeth fyddai ei dynged y foment y byddai ei draed ar dir ei famwlad gan mai ef oedd gwrthwynebydd di-drais mwyaf blaenllaw Putin ers dros ddegawd. A dyna'n union a ddigwyddodd. Cafodd miloedd o gefnogwyr Navalny eu harestio mewn modd treisgar yn dilyn protestiadau enfawr mewn cant o ddinasoedd y wlad a hynny mewn oerni eithafol. Mae dyfodiad Navalny, sy'n wrthwynebydd ifanc, yn siaradwr clir, yn ymgyrchwr deheuig ac yn berchen ar ddewrder hynod wedi rhoi rhywfaint o ysgytwad i Putin yn ôl y sôn. Un peth yw rhoi Duw yn y cyfansoddiad, peth arall yw gweithredu ei ddymuniadau.

**DANEG YN ESENSIAL?**
O glywed yr hanesyn nesaf, cân ddychanol Dafydd Iwan, "Mae Saesneg yn esensial" ddaeth i'r meddwl. Mae Eglwysi yn Ewrop wedi annog llywodraeth Denmarc i ailystyried deddfwriaeth sy'n mynnu y dylai pob pregeth yn Eglwysi'r wlad fod yn yr iaith Ddaneg. Yn ôl y llywodraeth gwneir hyn er mwyn rheoli neu ffrwyno unrhyw grefydd filwriaethus, ond y ffaith amdani yw y byddai'n arwain at gyfyngiadau. Golygai, er enghraifft, y byddai'n rhaid i gymdeithasau crefyddol Mwslemaidd y wlad gyhoeddi pob datganiad yn yr iaith Ddaneg neu ddarparu cyfieithiad. Ar ran yr Eglwysi mynegwyd y farn y byddai'r ddeddfwriaeth yn sicr o staenio delwedd Denmarc fel gwlad rydd, agored a rhyddfrydol a adeiladwyd ar dreftadaeth o iawnderau a pharch. Yn ôl yr Eglwys Lwtheraidd Efengylaidd, byddai'r ddeddfwriaeth hon yn arwain at ofid a phoen. Yn ôl Esgob Ewrop, Dr Robert Innes, byddai o reidrwydd yn cyfyngu ar y rhyddid mynegiant sy'n cael ei drysori yn Nenmarc, un o wledydd democrataidd hynaf y byd.

**"FEL ADERYN YW'N GWLAD, SY'N DYSGU SUT I HEDFAN"**
Yng ngwlad Myanmar, mae elusennau sy'n gweithio ar ran yr eglwys wedi condemnio'r grŵp militaraidd sydd bellach yn rheoli'r wlad. Mae'r fyddin wedi dwyn pŵer a chaethiwo Aung San Suu Kyi a oedd gynt yn arwain llywodraeth etholedig Myanmar. Yn ystod yr hanner canrif diwethaf bu'r Jwnta militaraidd yn erlid Cristnogion yn systematig ac mae'r sefyllfa bresennol yn ddifrifol iawn i'r Eglwys Gristnogol sydd ag aelodaeth gref o fewn y wlad. Meddai un protestiwr –"Aderyn yn dysgu sut i hedfan yw ein gwlad a rŵan mae'r Fyddin wedi torri ein hadenydd". Y geiriau ddaw i'm meddwl, o wasanaeth y Litani yn y Llyfr Gweddi Gyffredin sy'n addas iawn i bob gwlad sydd dan ormes o unrhyw fath –"Ar i Ti roddi i'r genedl hon a phob cenedl arall undeb, heddwch a chytgord".

**CRI O'R GALON**
Roedd llawer peth i'n cyffwrdd yn seremoni derbyn Joe Biden yn Arlywydd yr Unol Daleithiau ar yr ugeinfed o Ionawr eleni ac un ohonynt oedd clywed y ferch ifanc Amanda Gorman yn darllen ei cherdd arbennig dan y teitl "Y Bryn a Ddringwn". Gobeithio fod fy nghyfieithiad yn gwneud cyfiawnder â champwaith Amanda:


Ni wnawn orymdeithio yn ôl i'r hyn a fu,
Ond symud ymlaen i'r hyn a fydd:
Gwlad sydd wedi ei chleisio ond yn gyfan,
Haelionus ond beiddgar, angerddol a rhydd.
Ni chawn ein troi o gwmpas na chwaith ein
hymyrryd gan fygythion
oherwydd gwyddom mai ein diffyg egni
a'n syrthni fydd etifeddiaeth
y genhedlaeth nesaf.
Daw ein hamryfusedd ni yn faich arnynt hwy.
Ond un peth sy'n sicr:
Os gwnawn gyfuno trugaredd gyda grym,
a grym gyda chyfiawnder, yna cariad
a ddaw yn etifeddiaeth i ni a newid
genedigaeth fraint ein plant.


# Capel Ni
## yn Eglwys Iesu

## Bethel, Prestatyn

**GWASANAETH Y PASG**
Ailagorwyd y capel ar gyfer Sul y Pasg a hyfryd oedd gweld cynulleidfa yn llenwi'r capel unwaith eto. Diolch i bawb am barhau i ddilyn y Canllawiau Covid yn ofalus. Yn anffodus ni allwn gynnal yr Ysgol Sul eto ond diolchwn yn arbennig i'r rhieni sydd wedi parhau i ddod gyda'u plant i'r oedfaon. Nid oeddem yn gallu addurno'r groes gyda blodau yn y ffordd arferol eleni ac felly gwahoddwyd pob teulu yn unigol i ddod ymlaen i osod blodau ar y groes a gosodwyd y groes y tu allan i'r capel ar ddiwedd yr oedfa.
**GOHEBYDD .** GWENDA HUMPHRIES









## Ebeneser, Trefor, Môn

**GWASANAETH CYNTAF ERS DROS FLWYDDYN**
Nos Sul olaf Ebrill cawsom ein gwasanaeth cyntaf yn y capel ers dros flwyddyn. Roedd yr achlysur arbennig yng ngofal y Parchedig Ddr Jennie Hurd. Cafwyd oedfa fendithiol iawn a braf iawn oedd cael croesawu Jennie atom. Er bod pawb gyda'i fwgwd a'n bod yn eistedd yn bell oddi wrth ein gilydd, roedd awyrgylch hyfryd yn Ebeneser ar noson heulog braf. Gobeithio'n wir y gallwn barhau i gynnal oedfaon heb orfod wynebu cyfnod clo arall.
**GOHEBYDD .** CARYS THOMAS

## Eglwys Unedig Colwyn

**DIOLCH**
Rydym yn dal i dderbyn gwasanaethau bendithiol iawn drwy gyfrwng Zoom. Diolch i bawb sy'n gweithio'n galed i baratoi'r rhain ar ein cyfer.

**ARFON A CATHERINE**
Braf oedd clywed mab a merch ein diweddar weinidog y Parchedig J Haines Davies ar Radio Cymru yn ddiweddar. Bu Arfon a Catherine yn rhoi tipyn o hanes eu bywydau i Dewi Llwyd ar ei raglen 'Dros Ginio'.
**GOHEBYDD .** RHIANNON JONES

## Saron, Bethel, Arfon

**CYD-ADDOLI UNWAITH ETO**
Ar ôl blwyddyn hir o fod yn ddi-gapel roeddem fel aelodau a phlant yn hynod falch o gael ailagor y capel yn swyddogol brynhawn Sul y Pasg eleni. Er nad oedd modd canu na chwaith dderbyn y Cymun, roedd awyrgylch addolgar a'r gynulleidfa fechan yn hapus ac yn gwerthfawrogi cael y cyfle i ddod yn ôl at ein gilydd i gyd-addoli unwaith eto. Rydym wedi cyfarfod bob Sul ers hynny: er bod y drysau ar agor drwy gydol y gwasanaeth mae yna ryw gynhesrwydd arbennig iawn i'w deimlo ym mhob oedfa.

Diolch i'r aelodau i gyd am yr awydd a'r penderfyniad i ailagor a gweddïwn ar i Dduw ein cynnal a'n helpu fel Eglwys i ddal ati i'r dyfodol.

**DYMUNIADAU GORAU**
Anfonwn ein cofion fel Eglwys, a phob dymuniad am wellhad llwyr a buan i Mr Dafydd Williams, Stad Eryri, sydd yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Cofiwn hefyd am eraill o'r Eglwys yma a'u teuluoedd sy'n dioddef gwaeledd a dymunwn wellhad i bawb ohonoch gan edrych ymlaen at eich gweld i gyd yn ôl efo ni yn ein hoedfaon yn fuan.
**GOHEBYDD .** R.J.

## Preswylfa, Cyffordd Llandudno

**CYDYMDEIMLO**
Cydymdeimlwn â Gordon Evans o golli ei bartner a'i ffrind gorau, Beryl Marian. Beryl oedd mam dyner Bethan, Dylan ac Elfyn, mam yng nghyfraith Richard a nain gariadus Celyn, Cai a Caitlin, chwaer hoffus hefyd i Gwyn ac Ifor. Bu ei hangladd yn Amlosgfa Bae Colwyn dan arweiniad Trystan Lewis. Cydymdeimlwn â chwi i gyd fel teulu a meddyliwn amdanoch.

Cydymdeimlwn hefyd fel eglwys ag Eirian Jones ar golli modryb sef Mrs Gwyneth Evans, Mochdre.

**DYMUNO'N DDA**
Edrychwn ymlaen at gynnal oedfa yng nghwmni'r Parchedig Trevor Hoggard cyn iddo fynd yn ôl i Seland Newydd. Pob dymuniad da iddo ef a'i briod Cathie. Cofion at yr holl aelodau, gan ddymuno gwellhad buan i'r rhai nad ydynt mewn iechyd da ar hyn o bryd.
**GOHEBYDD .** EIRIAN JONES

## Pendref, Dinbych

**OEDFAON YM MHENDREF**
Ar ôl tri mis heb oedfaon oherwydd Covid-19 cymerwyd y penderfyniad, ar ôl ymgynghori â'r aelodau, i ailagor y capel ar Sul y Pasg. Ail-atgoffawyd pawb am y canllawiau i gadw'n ddiogel o dan reoliadau Covid a chadarnhawyd bod yr asesiad risg a baratowyd ar gyfer y capel yn dal yn ddilys. Roedd gwasanaeth Sul y Pasg dan ofal Mrs Enid Mair Davies, Eglwysbach. Cafwyd gwasanaeth bendithiol ac roedd yn braf cael cyd-addoli a gweld pawb unwaith ato. Dydd Sul Ebrill 18fed cafwyd oedfa Gymun dan ofal ein gweinidog y Parchedig Ddr Jennie Hurd. Diolch i'n gweinidog am addasu'r drefn ar gyfer y Cymun gan sicrhau bod y cyfan yn cydymffurfio â rheoliadau'r pandemig. Cynhaliwyd hefyd Gyfarfodydd Gweddi a diolchwn i Hywel Evans, Gwyn Williams, Heulwen Ellis a Bethan Roberts am ofalu am y cyfarfodydd hyn, hefyd i Hywel Evans am ei waith fel blaenor y mis ac i Vera Savage yr organydd. Ar ddydd Sul Mai 2il roedd hi'n Sul Galwad. Trefnwyd oedfa arbennig dan ofal Elfed Evans, Hywel Evans a Medwyn Jones gan ddefnyddio trefn gwasanaeth a baratowyd gan yr Eglwys Fethodistaidd.

**DYMUNIADAU GORAU**
Anfonwn ein dymuniadau gorau i'n holl aelodau sydd am wahanol resymau yn methu â bod gyda ni a dymunwn ben-blwydd hapus (hwyr) i ambell aelod a fu'n dathlu penblwyddi arbennig yn ddiweddar.

**GWAITH AR Y TŶ CAPEL**
Mae mwy na hanner y gwaith ar y Tŷ Capel bellach wedi ei gwblhau er y problemau oherwydd Covid-19. Gyda lwc bydd y gwaith wedi ei gwblhau erbyn yr haf.
**GOHEBYDD .** MARY JONES

## Bethel, Rhiwbeina

**AMSER GWELL I DDOD**
Ar Ebrill 4 bu cyfle i ni fwynhau gwasanaeth Sul y Pasg trwy gyfrwng Zoom ynghyd ag aelodau Salem. Roedd y gwasanaeth yng ngofal ein gweinidog y Parchedig Evan Morgan. Ar fore Sul Ebrill 18 cawsom neges arbennig gan Evan ar y thema 'Croesi'r Bont' – roedd rheswm o'r diwedd inni fedru gobeithio bod amser gwell i ddod wrth i ni groesi i ochr draw'r pandemig.

Diolch i aelodau Salem am gynnal y gwasanaeth ar Ebrill 25 ac i Rosina Davies o Fethel am ei chyfraniad hithau i'r gwasanaeth.

Drwy gydol y flwyddyn a aeth heibio rydym wedi cael cyfle i fwynhau eitemau cerddorol bob bore Sul gan aelodau o Salem a Bethel. Rydym yn gwerthfawrogi'r cyfraniadau hyn yn fawr iawn.

Gan fod sefyllfa'r pandemig yn edrych yn fwy gobeithiol mae cynlluniau ar y gweill i ail-gychwyn gwasanaethau yn y capel, ond yn y cyfamser bydd gwasanaethau Zoom yn parhau.
**GOHEBYDD .** GWILYM E ROBERTS

## Ebeneser, Dolgellau

**OEDFAON**
Rydym yn parhau i baratoi ac anfon allan wasanaeth wythnosol at bawb yn yr Ardal a rhai tu hwnt i ffiniau'r Ardal. Yn ogystal â hynny, mae'r capel wedi ailagor ers bore Sul y Pasg i bawb sy'n gallu dod.

**DATHLU'R 90**
Llongyfarchiadau i Mr Wyn Meredith a ddathlodd ei ben-blwydd yn 90 oed ar y 11eg o Fai.

**DYMUNIADAU GORAU**
Anfonwn ein dymuniadau gorau at Mrs Megan Abbey, Mrs Marion Humphreys a Mr Wyn Meredith yn eu hanhwylder. Rydym yn parhau i feddwl amdanynt.
**GOHEBYDD .** BERYL NORGROVE

## Pendref, Yr Wyddgrug

**ER COF ANNWYL AM VERA**
Cydymdeimlwn yn ddwys â Tudur, Deiniol, Nia ac Angharad a'r teulu oll, sydd wedi cael dwy brofedigaeth fawr o fewn amser byr. Bydd coffâd i'r diweddar Barchedig J. Bryn Jones yn ymddangos yn rhifyn nesaf y *Gwyliedydd*. Ddau fis cyn i Bryn ein gadael, bu farw Vera, priod a mam gariadus.

Ganwyd Vera Trevor Thomas ar 10 Ebrill 1931 yn Nhanydderwen, Capel Curig. Roedd ei mam, Sarah, yn wraig tŷ a'i thad, Thomas Trevor Thomas, yn gweithio ar y rheilffordd. Yn nes ymlaen symudodd y teulu i Fangor pan aeth ei thad i weithio yn chwarel y Penrhyn. Cafodd Vera ei haddysg yn Ysgol Ramadeg y Merched, Bangor ac yna derbyn hyfforddiant yn y Coleg Normal i ddilyn ei galwedigaeth fel athrawes. Roedd wrth ei bodd yn dysgu, hyd ei hymddeoliad cynnar ym 1984.

Cyfarfu Vera a Bryn ym Mangor ym Mhwyllgor Ieuenctid y Capel; hi oedd yr Ysgrifennydd a Bryn oedd y Cadeirydd. Priodwyd y ddau yng nghapel Moriah, Bangor ar 27 Gorffennaf 1955 a dechrau eu bywyd priodasol yn Ystumtuen lle'r aeth Bryn yn weinidog. Yno y ganwyd Tudur ym 1956. Symud wedyn i Bentre Helygain ble ganwyd Deiniol ym 1958 ac yna i Aberffraw ble ganwyd Nia ym 1961 ac Angharad ym 1965. Daethant i'r Wyddgrug ym 1966 gan ymgartrefu yno hyd ddiwedd eu hoes.



Bu Vera yn gydwybodol a gweithgar ar hyd y blynyddoedd, yn cymryd rhan amlwg ym mywyd Cymraeg yr Wyddgrug ac yn gefnogol iawn i waith y capel. Ymhlith ei diddordebau hamdden fe fwynhaodd actio yn y cwmni drama lleol, Cwmni'r Dreflan, a bu Bryn a hithau'n canu gyda Chantorion Glan Alun. Pleser mawr i Vera oedd cael dychwelyd i Fangor yn rheolaidd wedi i Deiniol a'i wraig Sioned ymgartrefu yno, a byddai Nain a Taid wrth eu boddau'n dod yno i warchod yr wyrion. Mawr fu eu diddordeb yn hanes a gyrfaoedd eu hwyres a'u hwyrion – Gwennol, Hedd, Guto, Dion a Meilyr, a hefyd bellach y gorwyrion – ar hyd y blynyddoedd. Er bod pellter daearyddol rhyngddynt yn aml roedd cyswllt clòs a chynnes yn parhau hyd y diwedd.

Nid oedd Vera yn cymryd ei hunan ormod o ddifrif ac nid oedd ots ganddi chwerthin am ei phen ei hunan; roedd hi'n derbyn hefyd nad oedd bywyd yn fêl i gyd a bod rhai pethau oedd y tu hwnt i'w dymuniadau, ond roedd ganddi agwedd bositif hyd y diwedd, gyda gwên ar ei hwyneb.

Hoffai'r teulu ddiolch yn fawr i bawb am eu caredigrwydd tuag atynt yn eu colled ac am y rhoddion hael er cof am Vera at Hosbis yn y Cartref a meddygfa'r Wyddgrug.
**GOHEBYDD .** RICHARD FRANCIS JONES

# DIGON I BAWB

***gan Glyn Tomos***

Dwn i ddim amdanoch chi, ond un ofn mawr oedd gen i ar ddechrau cyfnod Covid 19 oedd gweld prinder bwyd yn y siopau, ac roeddwn yn poeni na fyddai digon i bawb, yn arbennig rhai anghenus yn ein plith. Yr hyn a rhoddodd fod i'r pryder hwnnw oedd gweld pobol yn mynd yn wyllt ac yn gwagio silffoedd siopau ac archfarchnadoedd. Er y gellid deall y pryderon oedd yn bodoli ar y pryd, roedd hefyd yn dangos pa mor hunanol a barus mae dyn yn gallu bod.

Yn ei bregeth ar Ŵyl y Pasg, galwodd Archesgob Caergaint, Justin Welby, am newidiadau ysgubol ar ôl cyfnod Covid i adeiladu gwell dyfodol i bawb. Dywedodd fod gan gymdeithas ddewis i'w wneud dros y blynyddoedd nesaf wrth i ni ddod allan o'r cyfnod anodd hwn. Fe allwn naill ai gario mlaen fel yr oeddem cyn Covid, lle mae'r rhai mwyaf pwerus a'r mwyaf cyfoethog yn mynd yn fwy cyfoethog, ac yn gadael miloedd ar filoedd o bobl y byd yn dlotach. Ar y llaw arall, meddai, fe allwn gredu ym mhwrpas yr Atgyfodiad, sydd yn newid popeth ac yn cynnig dyfodol gwell i bawb.


**Hurt o gyfoethog**

Yn ddiweddar deuthum ar draws hanes Abigail Disney, sydd wedi bod yn wraig gyfoethog iawn, iawn erioed. Yn ôl ei chyfaddefiad ei hun, mae hi yn rhy gyfoethog. Mae ei chyfoeth yn dod gyda'i henw gan mai hi ydi wyres Roy Disney, a sefydlodd Gwmni Walt Disney yn 1923 gyda'i frawd Walt. Er ei bod yn gwrthod dweud faint o arian yn union sydd ganddi, mae hi yn cydnabod, a hithau bellach yn ei chwedegau cynnar, y byddai hi yn filiwnydd can mil gwaith erbyn hyn, pe na byddai wedi sylweddoli pan oedd hi yn ei hugeiniau bod ei ffortiwn yn ei gwneud yn ddiflas, a phenderfynu dechrau ei rannu ag eraill.

Mae hi wedi cyfrannu tua £52m o'i chyfoeth aruthrol yn barod, ac yn parhau i wneud hynny, tuag at achosion da, yn fwyaf arbennig i grwpiau sydd yn helpu merched mewn carchar, merched yn byw gyda HIV, a rhai sydd yn dioddef o drais yn y cartref. Ond nid yw ei roi i ffwrdd yn ddigon iddi. Mae hi eisiau gweld y dyn treth yn cymryd mwy o arian, nid yn unig ganddi hi, ond oddi wrth yr holl bobl hurt o gyfoethog ar draws y byd.

**Beth am roi yn hael**

Rydym i gyd yn gwybod ers tro, meddai Abigail, bod y byd y tu hwnt o anghyfartal, ac yn ei thyb hi mae Covid wedi dangos na allwn barhau i anwybyddu hyn. Dychmygwch blant bach, meddai, yn cael bath, ac wrth dynnu y plwg yn ara deg mae teganau bach y plant sydd ar waelod y bath yn dod i'r amlwg. Dyna sydd yn digwydd rŵan, meddai hi. Rydym i gyd yn gwybod beth sydd yn digwydd o dan yr wyneb. Yn ogystal â lladd mwy na 2.5 miliwn o bobl mae'r pandemig yma





Marcus Rashford

a'r cyfnodau clo wedi suddo o gwmpas 150 miliwn i dlodi aruthrol yn ôl Banc y Byd. Trwy gyfnod y pandemig mae'r rhai mwyaf tlawd wedi cael eu gorfodi i fynd i weithio, gan beryglu eu bywyd, tra bod y cyfoethogion yn aros adra.

Fel y gwyddom yn rhy dda, un o'r arwyddion amlwg o'r tlodi mawr yma yng Nghymru, fel ar draws Prydain, yw bodolaeth y Banciau Bwyd. Mae'r rhain i'w gweld ymhob tref, dinas ac mewn sawl ardal wledig, sydd yn dangos pa mor anodd ydi hi ar filoedd o deuluoedd i fwydo eu plant, a chael bwyd ar y bwrdd. Mae hyn yn digwydd ym Mhrydain, sef un o'r gwledydd cyfoethocaf yn ein byd. Roedd y rhain yn bodoli cyn cyfnod Covid a'r tebyg yw y bydd y galw amdanynt yn cynyddu unwaith yn rhagor. Mae'r gwirfoddolwyr niferus, yn eu mysg aelodau Capeli ac Eglwysi, yn deall yn union beth yw'r angen ar lawr gwlad. Dyna wyddai Marcus Rashford, pêl droediwr enwog, wrth roi pwysau ar y Llywodraeth Brydeinig i sicrhau bod holl blant Lloegr yn derbyn prydau bwyd am ddim yn ystod gwyliau ysgol. Yn ogystal, fe wyddom i gyd beth fydd effaith toriadau ar gymorth rhyngwladol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Prydain yn ddiweddar.

Dylai haelioni aruthrol Duw i ni, medd Archesgob Caergaint, ysbrydoli pob un ohonom i wneud yr un peth ym mhopeth a wnawn. Rydym wedi derbyn cymaint, meddai, beth am i ni roi yn hael. Neges bwysig ac amserol ddwedwn i, i bob un ohonom ac i holl Lywodraethau'r Byd.



# Wrth fynd heibio

## *gan William H. Owen*

Ers inni gyfarfod ein gilydd o'r blaen mae un newid sylfaenol wedi digwydd yn hanes byd crefydd yng Nghymru. Nid ei fod o bwys enfawr i enwad y Wesleaid, mi wn, ond mae'n gadael bwlch yn y gwead hwnnw a fu'n rhan o hanes y Gymru Gymraeg ers cenedlaethau lawer.

Sôn yr ydw i am y ddau enwad sydd wedi uno i gyhoeddi eu 'papur' wythnosol eu hunain. Bu'n benderfyniad dewr ymhlith swyddogion y Bedyddwyr a'r Presbyteriaid i ddweud 'digon yw digon'. Eleni, meddent, ni fydd *Seren Cymru* na'r *Goleuad* yn cael eu cyhoeddi fyth eto.

Yn eu lle daeth 'papur' ar y we yn unig o'r enw *Cenn@d* a'r @ gynffonnog fel y galwodd y Dr Denzil Morgan hi yn y rhifyn digidol cyntaf yn dynodi ei fod yn rhan o'r oes hon, yr oes dechnolegol a ffrwydrodd o'n blaenau i'w heithafion er pan ddaeth 'pandemic' yn air dyddiol. Ynghanol afiechyd byd-eang dyma greadigaeth newydd yn rhoi terfyn ar oes hir o gyhoeddi enwadol Cymraeg.

Gwelodd yr enw *Seren Cymru* olau dydd gyntaf yn 1851, flynyddoedd wedi'r cylchgrawn *Seren Gomer*, gan yr un enwad. Cylchgronau a fu gan y Bedyddwyr am gyfnod fel y Wesleaid sef y cyntaf i fentro i'r maes gyda *Yr Eurgrawn Wesleyaidd* yn 1809. Ond daeth cyhoeddi wythnosol yn fwy poblogaidd ac o hynny ymlaen cydiodd y bwrlwm hwnnw mewn gwahanol rannau o Gymru, a chrefyddol oedd natur llawer o'r cyhoeddiadau. A pharhaodd *Seren Cymru* am 170 o flynyddoedd.

Bu raid disgwyl tan 1869 cyn gweld y Methodistiaid Calfinaidd yn rhoi cychwyn ar *Y Goleuad* wythnosol. Ddwy flynedd ynghynt roedd yr Annibynwyr wedi cyhoeddi *Y Tyst Cymraeg*, a hwnnw yw'r *Tyst* sy'n dal hyd heddiw, er gwaethaf yr uniad rhwng y Bedyddwyr a'r Presbyteriaid. (Annibynwyr yw Annibynwyr yng ngwir ystyr y gair!). Yn 1877 y gwelwyd *Y Gwyliedydd* wythnosol cyntaf. Ynddo honnid fod 60,000 o Wesleaid yng Nghymru ar y pryd, 20,000 yn aelodau, oedd yn sylfaen dda i werthiant.

Erbyn 1881 roedd gan yr Eglwys Anglicanaidd yng Nghymru eu papur wythnosol – *Y Llan*. Yn y Rhyl yr oedd hwn yn cael ei argraffu, fel y *Gwyliedydd*, er nad oedd fawr o ganu clodydd yn y rhifyn cyntaf ei fod wedi gweld golau ddydd. Yn ôl pob golwg, wrth weld y papurau o bob math oedd yn cael eu cyhoeddi cyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg roedd miloedd o Gymry – waeth beth oedd eu cred – yn awchu am bapurau i'w darllen.

Ganrif a rhagor yn ddiweddarach mae'n ddarlun gwahanol iawn. Dyma ni gydag un papur enwadol wythnosol, un 'papur' digidol enwadol wythnosol a'r *Gwyliedydd* deufisol. Medrwn ddweud ei fod yn adlewyrchiad teg o'n hoes seciwlar ni. Heb ddiddordeb mewn crefydd ac aelodau'r enwadau'n dihoeni mae'n bryder nad oes dyfodol rhy lewyrchus i'r cyhoeddiadau sydd ar ôl.



# O'r Pen Yma

## gan Angharad Tomos

Yn fuan wedi llacio'r Clo yng nghanol mis Ebrill, rôn i'n teimlo awydd i fynd allan, a sylweddolais yn sydyn mod i'n cael ! Rôn i wedi arfer cymaint wedi un wythnos ar bymtheg o aros adre, fel mod i wedi derbyn mai felly y byddai pethau – am byth. Gwisgais fy nghôt a cheisio cofio popeth – yn fwgwd, menig, goriad, bag – yr holl strach o adael y tŷ sydd mor ddieithr inni bellach.

Dim ond rhyw bum milltir i lawr y lôn rôn i eisiau mynd, gan fod y siopau newydd ail agor, ac ymhen dipyn deuthum ar draws rhywbeth hollol ddieithr yn fy mywyd diweddar – ciw, ciw hir o geir! Ceisiais ddygymod â hyn, ond roedd yn wastraff o amser. Doeddwn i ddim wedi arfer dal fy nwylo. Wedi saith munud, dyma anobeithio a throi i'r cyfeiriad arall – am adre. Dôn i ddim yn mynd i aros gyhyd mewn ciw! Doedd dim byd yn y siop rôn i ei angen gymaint fel mod i eisiau aberthu rhan o'm diwrnod yn y fath fodd.



Wedi troi, ac o fewn canllath, deuthum i stop – roedd golau coch o'm blaen, felly doedd gen i ddim dewis ond aros. Edrychais yn bryderus ar y cloc. Faint o amser fyddai hyn yn ei wastraffu?

Dros y pedwar mis dwytha, dydw i ddim wedi gwastraffu amser, ac mae digonedd ohono wedi bod. Rydw i wedi cael digon o amser i ddarllen neu gerdded, coginio neu weithio – neu orffwyso, gwylio'r teledu, cysgu. Ond eistedd mewn car mewn ciw? Naddo, diolch byth. Ac yna sylweddolais faint o amser rôn i'n ei dreulio mewn car. Oriau bwy'i gilydd yn eistedd yn yr un ystum yn teithio i bob math o lefydd, ac yn oedi mewn ciws, wrth oleuadau, wrth gylchfan neu beth bynnag. Ac i be, yn aml iawn? Doedden ni ddim yn ei gwestiynu. Rhan o fywyd ydoedd.

Ers cychwyn y pandemig, rydym wedi dweud na allwn fynd yn ôl i 'fywyd fel ag yr oedd'. Bellach mae angen inni ddechrau sylweddoli beth yw goblygiadau hynny. Wrth gwrs fod angen mentro allan, ond falle y gallwn ddechrau cwestiynu mwy am werth y siwrne. Os wnawn ni syrthio yn ôl i'r hen rigolau, fyddwn ni fawr o dro yn teimlo yn flinedig a rhwystredig ac yn holi i ble yn y byd mae'r dyddiau yn mynd?

Rhodd Duw yw yr amser a gawn yn y byd hwn. Defnyddiwn o yn ddoeth.

# Cyfarfod Y Synod: Trafod y dyfodol

**Priodas a Pherthnasoedd**
"Y peth mwyaf un a ddysgwch byth fydd caru a bod yn wrthrych cariad eich hunan". Dyna'r geiriau sydd i'w gweld ar ddechrau adroddiad Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd yr Eglwys Fethodistaidd sef 'Duw mewn cariad sy'n ein huno'. Gofynnwyd i'r holl Synodau fynegi barn ar sawl pwynt yn yr adroddiad, yn dilyn proses hir a gofalus o ystyried dros gyfnod o flynyddoedd. Cadarnhaodd Synod Cymru ym mis Mawrth eleni, drwy fwyafrif clir, fod y pwyntiau dan sylw yn derbyn ein cymeradwyaeth. Mae'n debygol y bydd y Gynhadledd eleni yn pasio'r materion hyn, sydd yn cynnwys y cymal "Mae'r Eglwys Fethodistaidd yn cydnabod bod gwahanol safbwyntiau ymhlith ei haelodau ynghylch dehongli'r Beibl a'r traddodiad Cristnogol o ran a all unrhyw ddau berson briodi, neu a yw priodas rhwng dyn a benyw yn unig. Mae'r Eglwys Fethodistaidd wedi penderfynu parchu a gwneud darpariaethau ymarferol ar gyfer y ddau safbwynt."

**Cyd-synod**
Y mater arall tyngedfennol oedd beth fydd yn digwydd nesaf gyda'n gwaith a'n tystiolaeth yma yng Nghymru. Er gwaethaf pob rhwystr, mae gwaith Cymraeg yr Eglwys Fethodistaidd yn parhau. Ond mae newidiadau mawr ar droed. O dan yr eitem 'Dyfodol yr Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru' ar yr agenda, edrychwyd ar nifer o egwyddorion sy'n sail i drafodaethau pellach â Wales Synod, gyda'r bwriad o uno'r ddwy synod yng Nghymru. Cyflwynwyd sgets fer, yn edrych mewn ffordd hwyliog ar rai o'r cwestiynau sy'n codi.

Yna gwnaed amryw o sylwadau pellach gan y cynrychiolwyr: yn eu plith, nad yw gadael pethau fel y maent yn opsiwn. Er hynny, mae cryn ansicrwydd ac ofn y bydd yn anodd gweithio'n ddwyieithog yn y cyd-synod newydd a'r bwriad efallai yn gwanio dros amser. Bydd angen enw addas ar y Synod newydd, wrth reswm (yr enw "gweithiol" dros dro yw "Wales Synod Cymru"!). Dywedodd un aelod o'r Synod fod ein sefyllfa yn gyfle i ddechrau rhywbeth newydd, cyffrous a fydd yn rhoi cyfle newydd i ymestyn allan at bobl, o dan arweiniad Duw. Pan gynhaliwyd y drafodaeth hon yn Synod Cymru ar 27 Mawrth, nid oedd Wales Synod eto wedi cyfarfod a phleidleisio ar y bwriad i sefydlu'r cyd-synod newydd. Fodd bynnag, ymhen y mis ar ddiwedd mis Ebrill fe wnaethant hwythau bleidleisio'n gryf o blaid.

**Felly beth nesaf?**
Ar ôl hynny, cyfarfu rhai o arweinwyr y ddwy Synod i drafod y ffordd ymlaen. Mae papur trafod wedi ei baratoi gyda nifer o gwestiynau. Os nad ydych wedi ei dderbyn, dylech yn sicr ofyn i un o swyddogion eich capel neu Ardal neu'r Synod amdano. Dyfynnir yma ragymadrodd y papur.

*"Cafwyd cytundeb ar sail Cylchdaith Cymru yn lleihau ei chostau gweinidogaethol i un gweinidog ac yn lleihau nifer y capeli yn y gylchdaith yn gymesur.*

*Er bod y papur hwn yn awgrymu'r posibilrwydd o ymestyn y cyfnod trosglwyddo fel na fydd yn rhaid i ni dorri gweinidogaeth a chau capeli ar unwaith, pan fydd unrhyw gyfnod trosglwyddo wedi dod i ben bydd y gylchdaith yn gweithredu'r cytundeb canlynol:*

*Bydd un gweinidog ordeiniedig a fydd yn cael ei gefnogi yn arbennig gan un o'r ddau Gadeirydd Synod.*

*Bydd tua 12 capel ar ôl yn y gylchdaith.*

*Bydd hanner cronfeydd ariannol synod Cymru yn cael eu cadw ar gyfer gwaith newydd yn y synod newydd i gefnogi allgymorth newydd yn y Gymraeg."*

Yna ceir sylwadau ar ddeg o gwestiynau gan gynnwys "**Pa gapeli fydd yn aros ar agor?**"

*Gohebydd*

# Atgofion am Aberdaron

***gan y Parchedig Arglwydd Roger Roberts***





Yn 1962 yn St Paul Aberystwyth ordeinwyd tri ohonom i'r weinidogaeth sef Gwyn Hughes o Fwlchgwyn, Ifor Williams o Lanrhaeadr ym Mochnant, a minnau o Gonwy a Chyffordd Llandudno.

Ces fy anfon yn 21 oed yn 1957 i Aberdaron ar Gylchdaith Pwllheli fel "Pre Collegiate Probationer" ar gyflog o £280 y flwyddyn. Y Parch Joseph Williams oedd yno o'm blaen a bu mor garedig â'm cludo i'r Gylchdaith ar fy ymweliad cyntaf. Yr achlysur oedd Cymanfa Bregethu Rhoshirwaun – diwrnod a hanner efo 5 pregethwr, un o bob enwad a chyfanswm o 10 pregeth. Pregethu hwyliog ac ambell un yn taranu! Llond neuadd o gynulleidfa ac yn eu plith lawer o Wesleaid a fyddai dan fy ngofal yn y pedwar capel – Aberdaron, Uwchmynydd, Rhiw a'r Tyddyn.

Cael llety ym Mrynmor, ar yr allt o Aberdaron i Uwchmynydd am ddwy bunt a chweugain yr wythnos a Mrs Jones yn fawr ei gofal o'r gweinidog ifanc. I deithio, benthyg beic Mary Ann Hughes cyn prynu beic "district nurse" sef beic efo power pack ar yr olwyn ôl.

Y Sul cyntaf, draw i gapel y Tyddyn ger Botwnnog. Tacsi wedi costio 7/6 i fynd yno. Ni chofiaf beth oedd testun fy mhregeth – gwrido wrth gofio pa mor ddibrofiad yr oeddwn ond gobeithio i mi dderbyn maddeuant ("tydio'n ifanc!"). Teulu Coch y Moel, Ifan Jones, Jinnie Congl y Meinciau (chwaer y Parch Griffith Thomas Roberts, Cadeirydd y Dalaith), Osborne Owen, a Richard Jones, Bryn Meurig a ddywedodd "Efo fi ydach chi i ginio heddiw". Mynd yno nid mewn car ond yn gafael yn dynn o gwmpas canol Mr Jones ar gefn ei dractor! Wedyn yn y pnawn i Rhiw ac yn ôl i'r Tyddyn i oedfa 6. Diolch am aelodau trugarog.

Bore Llun, ar gefn y beic benthyg i ymweld ag ardal y Rhiw. Cael te tramp a chlamp o "slab cake" gan Miss Mary Ann Hughes, Tŷ Canol. Ymlaen wedyn ar y beic, nad oedd ei sêt yn rhy saff, i Dŷ Cerrig at Mrs Griffith lle cefais goffi a bisgedi gyda mymryn mwy o steil. Yna at Mr a Mrs Williams, Meillionydd Bach. Mrs Williams yn wraig fferm berffaith a minnau "jyst mewn pryd i ginio". Stwnsh a bacwn a semolina (!) i'w ddilyn. Ffarwelio a dringo i Mellionydd Mawr. "Rhaid eich bod wedi clywad ogla cinio, Mr Roberts bach!" Fûm i erioed yn denau iawn, ond...dim ffordd i osgoi canlyniad croeso Llŷn!

Capeli eraill y gylchdaith, pob un efo dwy oedfa'r Sul, oedd Mynytho, Llanbedrog, Nefyn a Phwllheli ei hun. Y ddau arolygwr oedd y Parch Maurice Jones ac yn fy ail dymor y Parch Tudor Davies. Yn ogystal roedd un uwchrif arbennig sef y Parch T.G. Ellis, yntau yn enedigol o Aberdaron.

Y tu allan i waith y gylchdaith dwi'n cofio Clwb Hyd y Gannwyll yn cyfarfod yn Neuadd Rhoshirwaun ac yn trafod materion tra parai golau cannwyll. Ambell Noson Lawen hefyd, un arbennig pan fu cyfle i wrando ar yr anfarwol Leila Megane. Mae llawer mwy i'w ddweud, hwyrach daw cyfle eto!




# TUDALEN Y PLANT

Dywedodd Iesu Grist stori am fugail yn gadael ei braidd er mwyn mynd i chwilio am un ddafad fach aeth ar goll:

“Meddyliwch am ddyn a chant o ddefaid ganddo, a bod un ohonyn nhw’n crwydro i ffwrdd. Oni fyddai’n gadael y naw deg naw ar y bryniau ac yn mynd i chwilio am yr un sydd ar goll? Credwch chi fi, os daw o hyd iddi, mae’r un ddafad yna yn rhoi mwy o lawenydd iddo na’r naw deg naw wnaeth ddim mynd ar goll! Yr un fath, dydy’ch Tad yn y nefoedd ddim am i unrhyw un o’r rhai bach yma gael eu colli.

(Mathew 18:12-14 beibl.net)






Helpa’r bugail i gael hyd i’r ddafad.